*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 879 (Cy.110)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *25 Mawrth 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *6 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol trwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 512ZB(4)(a)(iv) a 568 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

### Enw, Cychwyn a Chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 6 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr “Ddeddf 1996” (“*the 1996 Act*”) yw Deddf Addysg 1996.

mae i “Credyd Treth i Blant” a “Credyd Treth i Bobl sy'n Gweithio” yr ystyr a roddir i “*Child Tax Credit*” a “*Working Tax Credit*” yn Neddf Credydau Treth 2002(**3**).

ystyr “incwm blynyddol” (“*annual income*”) yw'r incwm am y flwyddyn dreth sydd yn cael ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Credydau Treth (Diffinio a Chyfrifo Incwm) 2002(**4**).

(**1**) 1996 p.56. Amnewidir adran 512 yn rhagolygol gan adran 201 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32) a mewnosodir adrannau 512ZA a 512ZB. Mae rhannau perthnasol adran 201 i ddod i rym ar 31 Mawrth 2003 yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/3185)(Cy.301) (C.107) Am ddiffiniad o “prescribed” *gweler* adran 512(b) fel y'i cymhwysir gan adran 512ZB(5).

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) ac adran 211(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002.

(**3**) 2002 p.21.

(**4**) OS 2002/2006. Mae incwm blynyddol person sydd yn cael ei gyfrifo yn unol â'r rheoliadau hynny yn cynnwys incwm partner y person hwnnw os oes cais ay y cyd i dderbyn Credyd Treth i Blant.

**Credydau Treth Rhagnodedig**

**3.** Rhagnodir Credyd Treth i Blant at ddibenion adran 512ZB(4)(a)(iv) o Ddeddf 1996 o dan yr amgylchiadau canlynol —

(a) pan fydd gan y rhiant â hawl i Gredyd Treth i Blant ond nid i Gredyd Treth i Bobl sy'n Gweithio, a

(b) pan fod y rhiant yn derbyn Credyd Treth i Blant drwy rinwedd dyfarniad sydd wedi ei selio ar incwm blynyddol heb fod yn fwy na'r swm a bennwyd at ddibenion adran 7(1)(a) o Ddeddf Credydau Treth 2002 fel trothwy incwm ar gyfer Credyd Treth i Blant(**5**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

25 Mawrth 2003

(**5**) £13,230 yw'r swm a benwyd mewn perthynas a Credyd Treth i Blant o 6 Ebrill 2003 ymlaen, yn sgil rheoliad 3(3) o Reoliadau Credydau Treth (Trothwyau Incwm a Phennu Cyfraddau) 2002 (O.S. 2002/2008).

(**6**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi, at ddibenion adran 512ZB o Ddeddf Addysg 1996, bod plentyn â hawl i gael cinio ysgol yn rhad ac am ddim pan fydd ei riant yn derbyn Credyd Treth i Blant yn yr amgylchiadau diffiniedig.

Yr amgylchiadau diffiniedig yw nad yw'r rhiant yn derbyn Credyd Treth i Bobl sy'n Gweithio, a rhaid bod y dyfarniad o Credyd Treth i Blant wedi ei selio ar incwm blynyddol heb fod yn fwy na'r swm sydd wedi ei bennu at ddibenion adran 7(1)(a) o Ddeddf Credydau Treth 2002, (sef £13,230 ar hyn o bryd).